



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk

Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

26/04/2020

GWEITHDREFNAU ADDYSGU O ADREF

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,

Gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n ddiogel ac yn iach. Hoffwn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am y gwaith arbennig yr ydych chi fel rhieni a'ch plant wedi'i wneud hyd yma yn ystod yr amseroedd digynsail hyn. Mae mor hyfryd gweld yr holl weithgareddau hwyliog a diddorol sydd wedi bod yn digwydd gartref a'u rhannu gyda ni trwy ein cyfrif trydar, @ParcyTywyn. Rydych chi i gyd yn gwneud gwaith gwyb, yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn sicrhau eu bod yn parhau i ddatblygu a dysgu gartref. Credaf yn gryf fod lles y plant a'ch lles chi yn hollbwysig yn ystod yr amseroedd hyn. Bydd rhai teuluoedd yn cael eu heffeithio gan COVID 19 mewn mwy o ffyrdd nag eraill, felly, mae'n hanfodol yn ystod y cyfnod ansicr ein bod yn gofalu am ein gilydd, yn cefnogi ein gilydd ac yn sicrhau bod hwn yn amser cadarnhaol a hapus i blant i'w gofio.

Ar hyn o bryd rydym yn ansicr ynglŷn â pha mor hir y bydd yr ysgol ar gau. Gall hyn fod am ychydig wythnosau eraill neu gall fod am weddill y tymor. Mae'n bwysig felly bod y plant yn ymgysylltu ac yn parhau i ddysgu gartref. Fel staff, rydym wedi trafod yn helaeth sut y gallwn sicrhau bod pob plentyn yn parhau i ddysgu a datblygu gartref, gan ystyried sefyllfa unigol pob cartref a lles pawb.

Addysgu o adref:

O ddydd Llun 27/04/2020, byddwn yn cyhoeddi prosiectau bach pythefnosol fel ein rhaglen dysgu gartref. Rydym wedi penderfynu ar un thema ar draws yr ysgol fel y gall y teulu cyfan fod yn rhan o'r un prosiect. Prif nod y prosiectau yw sicrhau hwyl trwy gweithgareddau pwrpasol rhyngweithiol ac ymarferol! Credwn y bydd hyn hefyd o fudd i deuluoedd sydd â mwy nag un plentyn a bydd yn sicrhau profiad dysgu ar y cyd gyda'r ffocws ar ddatblygu sgiliau bywyd sylfaenol.

Sut i ddod o hyd i'r prosiectau bach hyn? Gellir dod o hyd i dasgau ar wefan yr ysgol o dan yr adran 'Disgyblion'. Yn yr adran hon, dewiswch y grŵp blwyddyn sy'n briodol i'ch plentyn (pensiliau lliw) ac yna dewiswch ddelwedd blodyn yr haul - Heriau pythefnosol.

Mae gweithgareddau wedi'u gosod ar sail 'rhaid gwneud, dylech wneud, gallaf wneud'. Gobeithiwn y bydd pob plentyn yn cwblhau'r gweithgareddau 'rhaid gwneud' gan fod y rhain yn sgiliau sylfaenol allweddol.

Gweithgareddau 'Rhaid gwneud' :

Sillafu:

Mae'r rhestrau sillafu wythnosol wedi'u gosod ar HWB i chi weithio drwyddynt ar eich cyflymder eich hun. Os gallwch chi sillafu'r geiriau'n gywir, yna efallai y gallech chi roi cynnig ar eu hysgrifennu mewn brawddegau i wirio eich bod chi'n deall eu hystyr hefyd! Fe allech chi eu hymarfer gan ddefnyddio chwyth Sillafu ar j2blast hefyd!

Darllen:

Mae'n bwysig bod y plant yn datblygu angerdd i ddarllen ystod o genres: papur newydd, cylchgronau, llyfrau, ryseitiau ayyb. Darllenwch gyda'ch plant yn ddyddiol gan y bydd hyn yn datblygu eu rhuglder ac yn cynyddu geirfa. Holwch y plant ar y testun; mae deall yr hyn a ddarllenwyd yr un mor bwysig â'r weithred o ddarllen ei hun! Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darllen i'ch plant - gosodwch drefn lle efallai eich bod chi'n darllen stori i'ch plentyn cyn mynd i'r gwely er enghraifft.

Tablau:

Mae dysgu tablau yn bwysig iawn. Wrth alw i gôf ffeithiau rhif a thablau, mae'n galleogi i chi gyflymu eich gallu i ddatrys problemau mathemategol!

Gweithgareddau 'Dylech wneud':

Dyma'r gweithgareddau prosiect i'w gwblhau yn ôl eich dewis. Rhennir y gweithgareddau 'Dylech wneud' yn dasgau llythrennedd, tasgau rhifedd a gweithgareddau ymarferol.

Gallwch naill ai recordio'ch gwaith yn eich llyfrau prosiect, ar lyfr nodiadau sydd gennych gartref neu ar HWB. Os ydych chi'n gweithio ar HWB, cofiwch rannu'ch gwaith gyda'ch athro! Fe allech chi hefyd rannu'r gwaith gyda ni trwy ein tudalen trydar – cofiwch i dagio'r ysgol @ParcyTywyn

Gweithgareddau 'Gallaf wneud':

Mae'r rhain yn weithgareddau sy'n canolbwyntio ar ystod o dasgau hwyl i'w gwblhau yn hamddenol; gellir ddod o hyd i rai ar wefan yr ysgol ac eraill trwy trydar yr ysgol neu'r rhyngwyd e.e BBC Bitesize.

Cyfathrebu:

Ar hyn o bryd gall disgyblion ym Mlwyddyn 2 i 6 gysylltu â staff trwy eu cyfrif SpeakR. Gall pob disgybl hefyd gysylltu â'u hathro dosbarth trwy eu cyfrifon HWB. Er mwyn gwella ein cyfathrebu â chi eich hun ymhellach, isod mae cyfeiriad e-bost gwaith y staff. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â phrosiectau / gwaith ysgol, peidiwch ag oedi cysylltu â'r athro dosbarth. Mae cyfathrebu yn allweddol yn ystod yr amser hwn – rydyn ni yma i helpu!

Miss Roberts Bl 6 : Helen.Roberts1@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mrs Zych Bl 6 : elin.coslett-zych@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mrs Richards Bl 5 : sian.richards@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mrs Williams Bl 4 : elinor.williams@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mr Ford Bl 3 : michael.ford@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mrs Evans Bl 3 : elin.gibbon-evans@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mr Evans Bl 2 : dafydd.evans@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mrs Davies Bl 2 : anna.davies1@parcytywyn.ygolccc.cymru

Miss James Bl 1 : ceri-llian.james@parcytywyn.ygolccc.cymru

Mrs Williams Meithrin/Derbyn: janet.williams@parcytywyn.ygolccc.cymru

Gall rhieni hefyd gysylltu â mi fy hun pe bai angen cefnogaeth neu gymorth iechyd a lles arnoch chi, neu eich plant yn ystod y cyfnod yma: craig.davies@parcytywyn.ygolccc.cymru

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus. Cadwch yn ddiogel ac yn iach!

Mr C Davies

Pennaeth

